Pecyn Dogfen Cyhoeddus

At: Aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

Dyddiad: 14 Ionawr, 2016

Rhif Union: 01824 712589

ebost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD, DYDD GWENER, 22 IONAWR 2016** am **10.00 am** yn **YSTAFELL BWLLGOR 1B, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

**AGENDA**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiadau personol neu rai sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Rhybudd o faterion y dylid ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

**4 COFNODION** (Tudalennau 3 - 10)

Cael cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar: -

(a) 28 Tachwedd, 2014 (copi ynghlwm).
(b) 13 Mawrth, 2015 (copi ynghlwm).

**5 DATBLYGU ARCHWILIO YN SIR DDINBYCH** (Tudalennau 11 - 28)

Ystyried adroddiad ar y cyd gan y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a'r Cydlynydd Archwilio (copi ynghlwm) ar y cynnydd hyd yma wrth ddatblygu a gwella swyddogaeth archwilio'r Cyngor.

**6 BIL LLYWODRAETH LEOL (CYMRU)** (Tudalennau 29 - 36)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (copi ynghlwm) ar y newidiadau a chynigion i ddiwygio fframwaith deddfwriaethol llywodraeth leol Cymru.

**7 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL**

Ystyried eitemau ar gyfer y dyfodol.

**MEMBERSHIP**

**Y Cynghorwyr**

Joan Butterfield
Bill Cowie
Stuart Davies
Martyn Holland
Barry Mellor
Win Mullen-James
Bob Murray
Peter Owen
Merfyn Parry
Arwel Roberts
Cefyn Williams

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd yn Ystafell Gynhadledd 1b, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Gwener, 28 Tachwedd 2014 am 9.30 am.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr William Cowie, Martyn Holland a/ac Barry Mellor (Cadeirydd)

**HEFYD YN BRESENNOL**

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd (GW), Gwasanaethau Democratig (SP), Cydlynydd Archwilio (RE) a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd (KE)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Joan Butterfield a Win Mullen-James.

Cyfeiriodd y Swyddog Monitro at Gyfansoddiad y Pwyllgor Safonau ac eglurodd nad oedd gan y Pwyllgor gworwm. Cytunodd yr Aelodau i fwrw ymlaen â'r cyfarfod ar sail anffurfiol a bod unrhyw gamau a gymerir yn cael eu cymeradwyo yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni fu i unrhyw Aelod ddatgan cysylltiad personol na chysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fusnes a oedd i'w ystyried yn y cyfarfod.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 7 Chwefror 2014 i'w cymeradwyo.

Materion yn codi:-

6. Holodd yr Aelodau a allai'r Cynghorydd Meirick Lloyd-Davies wneud argymhellion i'r Pwyllgor fel sylwedydd. Ymatebodd y Swyddog Monitro gan ddweud na allai, gan egluro wedyn i'r Cadeirydd roi caniatâd i'r Cynghorydd

Lloyd-Davies siarad ac iddo gynnig awgrym. Yn dilyn hynny roedd 2 aelod o'r pwyllgor wedi cynnig argymhelliad a'i eilio.

***PENDERFYNWYD** – y dylid, yn amodol ar yr uchod ac ar gadarnhau hynny yn y cyfarfod nesaf, dderbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod fel cofnod cywir.*

**5 DATBLYGU CRAFFU YN SIR DDINBYCH**

Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn egluro bod cynigion i newid y ffordd y dewisir eitemau i graffu arnynt, er mwyn gweithio'n fwy effeithlon a chanolbwyntio ar y Cynllun Corfforaethol ac osgoi eitemau nad ydynt yn flaenoriaeth ac nad ydynt yn ychwanegu gwerth at y broses o graffu.

Ychwanegodd y Cydlynydd Archwilio bod pynciau'n aml yn cael eu hawgrymu heb fod gwybodaeth ddigonol ynglŷn â'r materion penodol y mae angen craffu arnynt. Pan ddigwydd hynny, bydd aelodau a swyddogion yn gwastraffu amser gwerthfawr yn llunio ac yn cyflwyno adroddiadau ac yn craffu ar faterion, heb roi sylw, o reidrwydd, i'r mater y bwriadwyd craffu arno.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i ddefnyddio ffurflenni i gynnig eitem i graffu arni fel modd o ychwanegu pynciau i raglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgorau archwilio. Cyflwynid y ffurflenni hyn i'r pwyllgor perthnasol neu i Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y Pwyllgorau Archwilio a fyddai wedyn yn dyrannu'r eitem i'r Pwyllgor Archwilio perthnasol. Cytunodd yr Aelodau mewn egwyddor â'r cynnig gan geisio sicrwydd y byddai canllawiau ar gael ynglŷn â dyrannu eitemau naill ai fel eitemau ar gyfer rhaglenni'r pwyllgorau archwilio neu i'w cynnwys mewn adroddiadau gwybodaeth.

Trafododd y Pwyllgor y posibilrwydd o wneud Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn aelodau o Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y Pwyllgorau Archwilio. Teimlwyd gan fod y Grŵp yn trafod eitemau rhaglen ac arferion da ar draws y Pwyllgorau Archwilio y byddai'n fuddiol bod cynrychiolydd ar ran y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn aelod o'r grŵp. Byddai angen i'r Cyngor addasu aelodaeth Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y Pwyllgorau Archwilio yn ffurfiol.

Cyfeiriodd y Cydlynydd Archwilio at adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ac at adroddiad Williams sy'n ymwneud â chanlyniadau'r broses graffu a nodweddion craffu effeithiol, gan esbonio fod disgwyl i bob awdurdod fesur eu hunain yn erbyn y nodweddion hynny a gâi eu defnyddio gan y rheoleiddwyr wrth adolygu'r swyddogaeth craffu. Trafododd yr aelodau nodweddion ymgysylltu cyhoeddus yn fanwl a'r anhawster a geir wrth annog trigolion i fynychu cyfarfodydd neu gymryd rhan mewn adolygiadau craffu.

Awgrymwyd y gallai pwyllgorau archwilio wahodd aelodau o'r cyhoedd i siarad mewn pwyllgorau neu i gyfrannu at waith grwpiau tasg a gorffen sy'n llai ffurfiol a chytunwyd y dylid cynnwys cwestiynau ynglŷn â hyn ac ynglŷn â chynnwys tystion arbenigol ar ffurflen gynnig yr Aelodau. Holodd yr aelodau a oedd cronfa ddata o grwpiau cymunedol / lobïo neu bartïon â diddordeb y gellid eu defnyddio i raeadru

gwybodaeth er mwyn hysbysu pentrefi a chymunedau'n defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ac ati fod pynciau perthnasol yn cael eu trafod ac i sôn am gyfarfodydd cysylltiedig.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**:***

(i) *Yn cymeradwyo gwneud defnydd o ffurflenni cynigion i'w defnyddio gan aelodau i ychwanegu testunau i raglenni gwaith i'r dyfodol y pwyllgorau archwilio;*

(ii) *Yn argymell bod y ffurflen gynnig derfynol yn cynnwys y siart llif sy'n cynnig canllawiau, a welir ar gefn y fersiwn gyntaf sydd ynghlwm i'r adroddiad, gyda'r cwestiynau a geir yn yr ail fersiwn;*

(iii) *Yn cefnogi'r gweithgareddau datblygu ar gyfer gwella craffu yn Sir Ddinbych a all gyfrannu'n effeithiol at y gofynion presennol i wneud arbedion mawr yn y gyllideb a chyflawni targedau'r Cynllun Corfforaethol;*

(iv) *Yn cymeradwyo mabwysiadu'r canlyniadau a'r nodweddion ar gyfer craffu effeithiol a'r egwyddorion ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd a amlinellwyd yn atodiadau 3, 4 a 5; ac*

(v) *Yn argymell bod y Cyngor yn diwygio aelodaeth Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Archwilio i gynnwys cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.*

## 6 AMSERLEN PWYLLGOR AR GYFER 2015 / 2016

Nododd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd fod yr Aelodau, wrth gymeradwyo'r amserlen flaenorol, wedi gofyn am ymestyn yr amserlen dros gyfnod hirach. Atgoffodd y Pwyllgor hefyd fod yr aelodau, fel rhan o'r ymarfer Rhyddid a Hyblygrwydd, wedi cytuno i gael gwared ag un cyfarfod y flwyddyn o amserlen pob pwyllgor. I'r perwyl hwnnw roedd amserlen 18 mis newydd yn cael ei pharatoi i'w chyflwyno ger bron y Cyngor llawn.

Roedd y Pwyllgor yn gwerthfawrogi pa mor anodd yw rhaglennu'r holl gyfarfodydd amrywiol i fod yn gyfleus i'r holl aelodau ond gofynnwyd a ellid rhoi ystyriaeth benodol i:

- geisio osgoi cynnal nifer o gyfarfodydd pwysig yn ystod yr un wythnos pan yn bosibl
- y gwaith papur / darllen y mae angen ei wneud cyn mynychu cyfarfodydd
- Cynghorwyr sy'n gweithio a allai ei chael yn anodd trefnu amser o'r gwaith.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn nodi'r angen i bwyllgorau gynnal un cyfarfod yn llai y flwyddyn ac yn cefnogi amserlen pwyllgor 18 mis*

## 7 RHEOLIADAU ABSENOLDEB TEULUOL AR GYFER AELODAU AWDURDODAU LLEOL (CYMRU) 2013

Cyflwynodd Pennaeth y Gyfraith, Adnoddau Dynol a’r Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn nodi'r newidiadau y mae angen eu gwneud i'r Rheolau Sefydlog er mwyn rhagnodi'r amodau pan fo gan aelod hawl i absenoldeb teuluol.

O dan ddeddfwriaeth bresennol mae angen i aelodau fynychu un cyfarfod mewn cyfnod o 6 mis oni bai y gwnaed cais am estyniad cyn y daw’r cyfnod hwnnw i ben. Byddai’r rheoliadau newydd yn golygu y byddai’n rhaid i’r Cyngor wneud Rheolau Sefydlog i gynnwys 5 gwahanol fath o absenoldeb teuluol a fyddai’n eithrio cynghorwyr rhag gorfod mynychu cyfarfodydd cyhyd â’u bod yn bodloni’r amodau yn y Rheoliadau.

Byddai Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd yn gyfrifol am adolygu ceisiadau am absenoldeb teuluol ac am weinyddu'r broses. Pe bai Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd yn gwrthod caniatáu'r absenoldeb teuluol, byddai angen iddo hysbysu Cadeirydd y Cyngor a hwyluso apêl. Argymhellwyd ffurfio’r panel apêl o blith aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

Os caniateir cyfnod o absenoldeb byddai hawl gan yr aelod i barhau i gael ei dalu. Gallai aelodau'r cabinet enwebu eilydd yn ystod cyfnod o absenoldeb teuluol. Telir yr eilydd yn ôl disgresiwn yr Awdurdod. Os cytunir talu eilydd yna byddai'n rhaid rhoi gwybod i’r Panel Cydnabyddiaeth Ariannol.

Bydd Pennaeth y Gyfraith, Adnoddau Dynol a’r Gwasanaethau Democrataidd yn paratoi adroddiad i’w gyflwyno ger bron y Cyngor er mwyn ychwanegu'r Rheolau Sefydlog i'r Cyfansoddiad gan nodi y dylid ffurfio’r panel apêl o blith aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

***PENDERFYNWYD -*** *Bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn cymeradwyo’r argymhellion canlynol i’r Cyngor llawn:*

*(i) Dirprwyo awdurdod i’r Swyddog Monitro i wneud y newidiadau angenrheidiol i Gyfansoddiad y Cyngor ac i lunio Rheolau Sefydlog er mwyn rhoi grym i ofynion y Mesur a’r Rheoliadau; a*

*(ii) Dylid llunio panel gwleidyddol gytbwys o 3 o aelodau’r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i benderfynu ar unrhyw apeliadau neu gwynion os yw Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yn gwrthod rhoi cyfnod o absenoldeb teuluol.*

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr)
Joan Butterfield a/ac Win Mullen-James

## PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Cofnodion cyfarfod o’r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd yn YSTAFELL BWLLGOR 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN, Dydd Gwener, 13 Mawrth 2015 am 10.00 am.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr William Cowie, Barry Mellor (Cadeirydd) a/ac Merfyn Parry

Arsylwyr: Y Cynghorydd M.Ll. Davies.

**HEFYD YN BRESENNOL**

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd (GW), Gwasanaethau Democratig (SP), a Gweinyddwr Pwyllgor (SLW)

### 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Joan Butterfield, Martyn Holland a/ac Peter Owen

Cyfeiriodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd at y Cyfansoddiad ac eglurodd nad oedd cworwm yn y Pwyllgor. Cytunodd yr Aelodau y dylid parhau â’r pwyllgor ar sail anffurfiol a bod unrhyw gamau a gymerir yn cael eu cadarnhau yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

### 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim.

### 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Dim.

### 4 PENODI IS-GADEIRYDD

Ailbwysleisiodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y ffaith nad oedd gan y Pwyllgor gworwm ac felly nid oedd modd penodi Is-Gadeirydd. Cadarnhaodd y byddai'n anfon e-bost at holl aelodau'r Pwyllgor i ofyn am ddatganiadau o ddiddordeb.

### 5 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2014 i’w cymeradwyo.

Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd na fyddai'r cofnodion yn cael eu cadarnhau yn y cyfarfod hwn oherwydd nad oedd gan y Pwyllgor gworwm.

Gofynnodd y Cynghorydd Meirick Lloyd Williams am eglurhad gan Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd ynghylch materion yn codi yn 6. Tudalen 4 o'r cofnodion a gyflwynwyd.

Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd y gallai sylwedyddion mewn cyfarfodydd siarad, gyda chaniatâd y Cadeirydd, ond ni fyddent yn gallu cynnig argymhellion.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid, yn amodol ar yr uchod ac ar gadarnhau hynny yn y cyfarfod nesaf, dderbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod fel cofnod cywir.*

## 6 PAPUR GWYN LLYWODRAETH CYMRU - DIWYGIO LLYWODRAETH LEOL: PŴER I BOBL LEOL

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd adroddiad Papur Gwyn gan Lywodraeth Cymru (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) i'r Pwyllgor ystyried y Papur a rhoi sylwadau ar y materion hynny a oedd yn destun ymgynghori.

Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd bod Papur Gwyn wedi'i gyflwyno i'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Archwilio, a byddai hefyd yn cael ei gyflwyno yn y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth. Ymgynghorwyd ag Arweinyddion y Pleidiau Gwleidyddol am sylwadau. Byddai Swyddogion Amrywiol y Cyngor hefyd yn cyflwyno sylwadau i Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd.

Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd bod y Papur Gwyn wedi'i gyhoeddi mewn tair fersiwn, y fersiwn Lawn, y fersiwn Bob Dydd (crynodeb) a'r fersiwn Pobl Ifanc. Dosbarthwyd y fersiwn lawn yn flaenorol.

Gofynnwyd yn benodol am farn y Pwyllgor o ran elfennau'r Papur a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol ag aelodau a strwythurau democrataidd yr awdurdod.

Roedd rhai o'r cynigion a'r dewisiadau polisi yn y Papur Gwyn yn cynnig manylion cyfyngedig o ran sut y byddai'r cynigion yn cael eu rhoi ar waith.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor roi ystyriaeth yn arbennig i'r bennod o'r enw "Adnewyddu Democratiaeth" gan mai dyma'r bennod a oedd yn ymdrin yn bennaf â materion a oedd o fewn maes cyfrifoldeb y Pwyllgor.

Yn y fan hon, mynegodd y Cynghorydd Bill Cowie ei siom ym mhresenoldeb y cyfarfod hwn a chyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Dywedodd y Cynghorydd Cowie y byddai'n anodd cymryd rhan mewn dadl gyda chyn lleied o aelodau yn bresennol. Gofynnodd y Cadeirydd i Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd gylchredeg y prif bwyntiau i

Aelodau'r Pwyllgor yn mynegi'r pwysigrwydd o anfon eu sylwadau i gael eu cynnwys yn yr ymateb.

Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd y cynigion yn y Papur Gwyn a rhoddodd yr Aelodau yr ymateb canlynol:

- Cytunodd yr holl Aelodau a oedd yn bresennol gyda'r tymor pum mlynedd i Gynghorwyr.
- Nid oedd unrhyw un yn cytuno â'r etholiadau graddol arfaethedig, gan ddatgan y byddai adnoddau'n dyblygu a byddai materion parhad.
- Nid oedd angen cyhoeddi papurau enwebu ac felly nid oedd aelodau'n deall pam bod angen cofnodi cysylltiadau gwleidyddol y cynghorwyr, pa un a oeddent yn cynrychioli'r blaid honno ai peidio.
- Anghytunodd yr aelodau gyda chynnig yr Arweinydd i gyhoeddi maniffesto a fyddai wedyn yn dod yn flaenoriaethau'r Cyngor, oherwydd ar hyn o bryd roedd ymgynghoriad a gweithdai yn cael eu cynnal. Roedd y Cyngor yn penderfynu ar y blaenoriaethau, roedd y Cabinet yn cyflwyno'r blaenoriaethau hynny ac Archwilio yn eu dwyn i gyfrif. Byddai cyhoeddi maniffesto yn broblem gan fod etholiadau fel arfer yn cael eu cynnal ym mis Mai, byddai'r Arweinydd yn cael ei ethol ar ddiwedd mis Mai, felly byddai hynny'n gadael cyfnod byr iawn o amser ar gyfer llunio maniffesto ar gyfer y pum mlynedd nesaf.
- O dan y cynnig newydd, byddai angen cyhoeddi amcanion y Prif Weithredwr a'r Aelodau Cabinet.
- Anghytunodd yr Aelodau yn gryf gyda'r cynnig i gyfethol aelodau anetholedig i'r Cabinet, gan fod aelodau wedi eu hethol gan y bobl ac ni ddylai aelodau anetholedig gael y cyfle i eistedd ar y Cabinet.
- Cytunodd pawb na fu digon o fanylder o ran nifer yr aelodau ar y Cabinet a'r mater a oedd yn swydd llawn amser neu beidio. Byddai angen mwy o wybodaeth.
- Ni chytunwyd ar y cynigion hyfforddiant gorfodol.
- Cytunodd pawb a oedd yn bresennol y dylid cael safonau presenoldeb er mwyn atal problemau, oherwydd ar hyn o bryd, nid oedd rhai aelodau yn mynychu llawer o gyfarfodydd.
- Gofynnwyd am arweiniad ychwanegol ynghylch cwblhau a chyhoeddi adroddiadau blynyddol aelodau. Cwestiynwyd sut y byddai hyn yn cael ei orfodi.
- Roedd pawb yn cytuno y gallai mesurau diogelu ynglŷn â gosod sancsiynau priodol, fel y nodwyd yn y Papur Gwyn, fod yn destun camddefnydd.
- Roedd Sir Ddinbych eisoes â Pholisïau Gwrth-fwlio a Gwrth-Aflonyddu ar waith. Roedd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd a'r Pwyllgor Safonau yn gorfodi'r polisïau os oedd angen.
- Ni fu unrhyw sôn o fewn y Papur Gwyn am adnoddau ychwanegol i'r Prif Weithredwr sefydlu Cyngor Ieuenctid.
- Gan fod hyrwyddo amrywiaeth yn gynnig pwysig, cytunodd yr Aelodau y gallai problem godi pe bai Aelodau Etholedig yn gweithio ac yn gorfod cymryd absenoldeb di-dâl i fynychu cyfarfodydd. Nid oeddent am i unrhyw Aelod Etholedig fod o dan anfantais.
- Anghytunodd yr aelodau â therfynau'r tymor. Y consensws oedd, os oedd rhywun yn gwneud gwaith ardderchog, pam eu tynnu i ffwrdd ar ddiwedd y

tymor a nodwyd. Efallai na fyddai'r aelod newydd mor dda â'r aelod blaenorol.

- Cytunodd pawb os yw person yn cael ei ethol i Gyngor Sir, dylid eu hanghymhwyso rhag bod yn Aelod o'r Cynulliad.

Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd y byddai'n casglu'r ymatebion a'u hanfon at aelodau cyn eu cyflwyno i'r Cyngor Llawn ym mis Ebrill.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr uchod, ystyriodd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd y Papur Gwyn a gwnaethpwyd sylwadau fel a nodwyd.*

## 7 ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL 2015/2016

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (DSM) Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2015/2016 (a ddosbarthwyd yn flaenorol) i wneud y Pwyllgor yn ymwybodol o benderfyniadau'r Panel ar gyfer 2015/2016.

Roedd yn ofynnol i'r Panel lunio adroddiad blynyddol yn nodi'r lefelau yr oedd aelodau am gael eu talu ar gyfer gwahanol ddyletswyddau a chyfrifoldebau ar gyfer y flwyddyn ddinesig nesaf. Roedd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn gofyn i Awdurdodau Lleol weithredu argymhellion y Panel.

Eleni, mae'r Panel wedi penderfynu peidio â chynyddu tâl oherwydd y toriadau parhaus mewn cronfeydd llywodraeth leol.

Byddai Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd yn cyflwyno Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2015/2016 i'r Cyngor ym mis Ebrill.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn nodi Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2015/2016.*

## 8 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd adroddiad llafar.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn nodi'r adroddiad.*

**Daeth y cyfarfod i ben am 12.15 p.m.**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **22 Ionawr 2016** |
| **Swyddog Arweiniol:** | **Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Cydlynydd Archwilio** |
| **Teitl:** | **Datblygu Archwilio yn Sir Ddinbych** |

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Y cynnydd hyd yma o ran datblygu a gwella swyddogaeth archwilio'r Cyngor.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Rhoi gwybod i'r Pwyllgor am y cynnydd a wnaed o ran datblygu swyddogaeth archwilio'r Cyngor i gefnogi cyflawniad ei flaenoriaethau corfforaethol a'i wella yn unol â gweledigaeth rheoleiddwyr ar gyfer archwilio ar draws Cymru.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Bod yr Aelodau yn:

3.1 ystyried y wybodaeth a ddarparwyd a rhoi sylwadau ar y cynnydd a wnaed hyd yma

3.2 cefnogi'r dull gweithredu ar gyfer gwelliant parhaus;

3.3 os yw'n briodol, nodi meysydd ar gyfer gwelliant pellach neu eu cryfhau ar gyfer y dyfodol; ac

3.4 argymell y dylai pob cynghorydd sir, aelodau o bwyllgorau a swyddogion gymryd rhan yn yr ymarfer hunan arfarnu archwilio nesaf, fel y gellir gwerthuso'r swyddogaeth yn briodol, gyda'r nod o sicrhau gwelliant parhaus.

**4. Manylion yr Adroddiad**

4.1 Yn ei gyfarfod ar 28 Tachwedd 2014, ystyriodd y Pwyllgor adroddiad ar gynigion ar sut i ddatblygu'r weithredo o archwilio yn Sir Ddinbych, er mwyn sicrhau ei fod yn gweithio'n fwy effeithlon ac effeithiol, yn canolbwyntio ar gefnogi cyflwyno'r Cynllun Corfforaethol ac yn rhoi gwerth ychwanegol i'r broses o wneud penderfyniadau. Bydd y ddolen isod yn mynd ag aelodau i'r adroddiad a ystyriwyd yn y cyfarfod hwnnw ac i gofnodion y cyfarfod: https://moderngov.denbighshire.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=413&MId=5057&Ver=4&LLL=1

4.2 Yn ogystal â chynorthwyo cyflawniad y Cynllun Corfforaethol, roedd y cynigion a gyflwynwyd hefyd yn bwriadu mynd i'r afael ag argymhellion a wnaed yn adroddiad cenedlaethol Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) ym mis Mai 2014 ar gaffael yng Nghymru, *Craffu Da? Cwestiwn da!*[1]

4.3 Mewn ymateb i adroddiad SAC, cafodd cynllun gweithredu ei lunio i fynd i'r afael ag argymhellion yr rheoleiddwyr, ac i symud ymlaen â rhoi'r arferion gorau a welwyd gan aelodau archwilio yn ystod ymweliadau cyfoedion ar waith, a thrafodaethau a oedd yn rhan o broses adolygu SAC. Mae copi o'r cynllun gweithredu wedi'i atodi yn Atodiad 1.

4.4 Roedd argymhelliad 7 o adroddiad SAC yn nodi y dylai pob swyddogaeth archwilio awdurdod lleol "ymgymryd â hunanwerthusiad rheolaidd o archwilio gan ddefnyddio 'canlyniadau a nodweddion trosolwg ac archwilio llywodraeth leol effeithiol' wedi'u datblygu gan Rwydwaith Swyddogion Archwilio Cymru." Yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2014, cymeradwyodd y Pwyllgor hwn y cam o fabwysiadu'r 'nodweddion'. Fel rhan o'r broses baratoi ar gyfer Adroddiad Blynyddol y llynedd o Bwyllgorau Archwilio, cynhaliwyd hunan arfarniad ar sail y nodweddion uchod. Fodd bynnag, oherwydd y gyfradd ymateb isel i'r holiadur hunanwerthuso, ni chafodd canfyddiadau'r ymarfer eu cynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol oherwydd teimlwyd y gellid ystyried nad yw'r casgliadau'n ansoddol. Er gwybodaeth y Pwyllgor, mae canlyniadau'r ymarfer hunan arfarnu wedi eu cynnwys yn Atodiad 2. Er gwaethaf y gyfradd ddychwelyd isel, nodwyd rhai themâu cyson ar gyfer gwella, a gellir gweld y rhain ar dudalen olaf Atodiad 2.

4.5 Cafodd Adroddiad Blynyddol Pwyllgorau Archwilio'r Cyngor ar gyfer 2014/15 ei gyflwyno i'r Cyngor Sir ym mis Mai 2015. Bydd y ddolen ganlynol yn mynd â chi i'r dudalen berthnasol ar wefan y Cyngor lle gallwch weld y fersiwn lawn a chrynodeb o'r adroddiad: https://www.denbighshire.gov.uk/cy/eich-cyngor/ynglyn-ar-cyngor/sut-maer-cyngor-yn-gweithio.aspx

4.6 Yn ystod tymor yr hydref 2016, bydd y Cyngor yn destun Asesiad Corfforaethol gan Swyddfa Archwilio Cymru. Wrth ystyried hyn, gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y cynnydd a wnaed hyd yn hyn o ran datblygu gwaith archwilio yn Sir Ddinbych, nodi meysydd i'w gwella ymhellach ac argymell bod yr holl gynghorwyr sir, aelodau pwyllgor a swyddogion yn cymryd rhan yn yr ymarfer hunan arfarnu archwilio nesaf er mwyn gwerthuso'r swyddogaeth yn briodol a'i gryfhau ymhellach o ganlyniad.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Bydd swyddogaeth archwilio gadarn ac effeithiol yn cefnogi uchelgais y Cyngor i gyflawni ei Gynllun Corfforaethol o fewn y raddfa amser ddymunol. Gall swyddogaeth archwilio effeithiol hefyd gynorthwyo'r Cyngor i wireddu ei uchelgais o fod yn nes at y gymuned.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

[1] *Good Scrutiny? Good Question!* WAO, May 2014: http://www.audit.wales/publication/good-scrutiny-good-question-auditor-general-wales-improvement-study-scrutiny-local

Bydd costau ar gyfer datblygu'r swyddogaeth archwilio ac ymgymryd ag ymarfer hunanwerthuso yn fach iawn, gan y byddant yn golygu gwahanol ffyrdd o weithio yn unig, a bydd yr ymarfer hunanwerthuso yn cael ei wneud yn electronig ar y cyfan. Bydd yn rhaid i'r holl gostau gael eu cynnwys o fewn y gyllideb adrannol gyfredol.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai fod templed o'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei lenwi a'i atodi i'r adroddiad.**

Nid oes angen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer yr adroddiad hwn gan nad yw'n cynnig newidiadau i bolisïau neu weithdrefnau. Gall archwilio effeithiol sicrhau bod effaith penderfyniadau'r Cyngor ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig yn cael eu diogelu.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Mae Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Archwilio (GCIGA) yn monitro cyflawniad y Cynllun Gweithredu Gwella Archwilio yn rheolaidd.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Dim angen.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae gan swyddogaeth archwilio aneffeithiol y potensial i arwain at y Cyngor ddim yn cyflawni ei Gynllun Corfforaethol, neu'r Cabinet neu swyddogion ddim yn cael eu herio a'u dal i gyfrif am benderfyniadau a wneir. Gall hyn arwain at adroddiadau rheoleiddio anffafriol a hyd yn oed ymyrraeth gan Lywodraeth Cymru. Gall sicrhau bod gan yr Awdurdod swyddogaeth archwilio effeithiol sy'n datblygu i fodloni gofynion a heriau newydd liniaru'r risg o adroddiadau anffafriol neu ymyrraeth. Dylai swyddogaeth archwilio gadarn ac effeithiol hefyd arwain at well penderfyniadau, yn seiliedig ar dystiolaeth.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae Erthygl 6.5.4 Cyfansoddiad y Cyngor yn nodi y gall y Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Archwilio ystyried "materion a fydd yn cynorthwyo Aelodau i gyflawni'r swyddogaeth archwilio yn effeithiol." Mae cylch gwaith y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn cynnwys adolygu pa mor ddigonol yw'r ddarpariaeth gan yr awdurdod o ran staff, llety ac adnoddau eraill i gyflawni swyddogaethau gwasanaethau democrataidd (Adran 9 o Ran 1 o Fesur Llywodraeth Leol 2011).

**Swyddog Cyswllt:**
Cydlynydd Archwilio
Ffôn: 01824 712554

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Appendix 1**

## Scrutiny Improvement Action Plan

| Scrutiny Environment | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **No.** | **Area for Improvement** | **Proposed Actions** | **By when/date for review** | **By whom** |
| **1.** | **Improve public engagement and interaction with scrutiny** (links to nos. 8 & 9 below) | **1.1 Review seating arrangements at scrutiny meeting** | **Completed** (revised seating arrangements used as and when the Committee Chair feels it's appropriate) | **SCVCG** |
| | | **1.2 Develop a short information leaflet on 'scrutiny' to be available to the public at scrutiny meetings** (similar to the one produced by Wrexham CBC) | **Completed and leaflet available** | **Scrutiny Coordinator** |
| | | **1.3 SCVCG to discuss potential methods for raising scrutiny's profile amongst residents** | **Initial discussions underway. Twitter account now opened and some use of the Corporate Facebook site to invite the public to provide evidence of impact of budget cuts for the Cutting Our Cloth Task and Finish Group** (review summer 2016) | **SCVCG** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **1.4 Develop a protocol/memorandum of understanding for public interaction with scrutiny** | **April 2016** | **SCVCG and Democratic Services Officers** |
| **2.** | **Improve and enhance Scrutiny and Executive members' interaction and roles in actively promoting scrutiny's role, its value and benefits both internally and externally** | **2.1 SCVCG members to discuss with Cabinet arrangements for Lead Members' attendance and role at scrutiny committee meetings** (including the feasibility of Lead Members presenting reports to scrutiny) | **Completed –** Lead Members are now invited to attend scrutiny meetings to present and answer questions if appropriate | **Scrutiny Coordinator** |
| | | **2.2 links to 2.1 above. SCVCG to discuss ways of actively promoting the benefits of scrutiny internally and externally** (e.g. utilising former scrutiny chairs and vice-chairs who now sit on Cabinet to promote scrutiny's benefits as part of their roles) | **Continual –** the benefits of scrutiny outlined during the presentation of the Scrutiny Committees' Annual Report to Annual Council in May 2015<br>- Regular interaction with Cabinet members at scrutiny meetings and through the SCVCG meeting periodically with the Leader | **SCVCG/Scrutiny Coordinator** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **2.3 utilise the presentation of the National Scrutiny Improvement Study report to Council Briefing as an opportunity to highlight to all county councillors how they can promote scrutiny to their constituents and community groups** | The recommendations from the National Study were incorporated into the presentation at Annual Council (May 2015) of the Scrutiny Committees' Annual Report**.** The presentation included the promotion of the 'Member Proposal Form' which any county councillor can complete and submit if he/she thinks a subject merits scrutiny's input | **SCVCG/Democratic Services Manager/Scrutiny Coordinator** |
| **3.** | **Consider the resources allocated to dedicated scrutiny support with a view to realising scrutiny's optimum potential to the Council** | (Peer Assessment Team questioned Denbighshire's capacity to deliver the powers and duties conferred on scrutiny under the Local Government (Wales) Measure with only one dedicated scrutiny officer)<br><br>**3.1 Consideration to be given as part of the budget setting process to the level of dedicated scrutiny support required in future** (having regard to financial constraints and legislative requirements) | completed via the Freedoms and Flexibilities process, but due to financial constraints no additional resources can be made available at present or for the foreseeable future. | **Head of Legal & Democratic Services and Democratic Services Manager (Head of Democratic Services)** |

| Scrutiny Practice | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **No.** | **Area for Improvement** | **Proposed Actions** | **By when/date for review** | **By whom** |
| **4.** | **4 (i) Highlight the importance of topic selection/ prioritisation to all scrutiny members** | **Scrutiny Chairs and Scrutiny Coordinator to emphasise to committees on a regular basis the importance of topic selection and prioritisation. The need to link to Council's corporate priorities, community/partners' needs, be outcome focussed to enable the impact of scrutiny to be evaluated, also to be emphasised**<br><br>(training events to be arranged on chairing, questioning and work programming skills as and when required) | **Continual**<br><br>SCVCG has issued guidance to the scrutiny committee on the areas which scrutiny should focus on for the term of this Council. This guidance appears in every Scrutiny Work Programme report presented to the committees.<br><br>A new Members' Proposal Form process has been introduced which seeks members to clearly stipulate why a topic merits scrutiny's input and how scrutiny can add value to the desired outcome. All requests, be they officer or member requests, are considered by either the Committee or the SCVCG who apply a strict test, called the 'PAPER' test, to determine whether the subject does merit scrutiny's time.<br><br>Training sessions on chairing, questioning and work programming skills have been | **Scrutiny Chairs and Vice Chairs/Scrutiny Coordinator** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | offered, but a couple were poorly attended or had to be cancelled. | |
| | **4(ii) Topics to be carefully scoped and officers to conform with brief given** | **Committees to clearly define the reasons why a report is required, what information is expected, the desired outcomes from scrutinising the subject and the value scrutiny can add** | **Continual**<br><br>See 4.1 above<br><br>(will form part of regular training programme) | **Scrutiny Coordinator and Scrutiny Chairs and Vice Chairs** |
